**ATODIAD B**

## Dangosyddion Darbodus 2018/19

### 1. Cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus) gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wrth bennu faint o arian a all fforddio ei fenthyg. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith glir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer broffesiynol dda. Er mwyn dangos bod yr Awdurdod wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

### 2. Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf

Gellir crynhoi gwariant cyfalaf a chyllido'r Awdurdod fel y cynlluniwyd fel hyn.

| **Gwariant Cyfalaf a Chyllido** | **2017/18 Diwygiedig £'000** | **2018/19 Amcangyfrif £'000** | **2019/20 Amcangyfrif £'000** | **2020/21 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **30,642** | **14,767** | **9,243** | **6,666** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,137 | 293 | 0 | 0 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 8,356 | 3,449 | 2,722 | 2,522 |
| Refeniw | 8,883 | 6,077 | 1,385 | 0 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,150 | 4,144 | 4,144 | 4,144 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 8,116 | 804 | 992 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **30,642** | **14,767** | **9,243** | **6,666** |

### 3. Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **31.03.18 Diwygiedig £'000** | **31.03.19 Amcangyfrif £'000** | **31.03.20 Amcangyfrif £'000** | **31.03.21 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm CFR** | 181,683 | 178,980 | 176,442 | 173,344 |

Rhagwelir y bydd y CFR yn gostwng o £8.339m dros y tair blynedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariennir trwy ddyled gynyddu llai na'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled.

## 4. Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Awdurdod sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

| **Dyled** | **31.03.18 Diwygiedig £'000** | **31.03.19 Amcangyfrif £'000** | **31.03.20 Amcangyfrif £'000** | **31.03.21 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 106,790 | 106,790 | 106,083 | 106,083 |
| Lesoedd cyllid | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau PFI | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | 106,790 | 106,790 | 106,083 | 106,083 |

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

## 5. Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol

Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrifon yr Awdurdod o wariant cyfalaf, y gofyn cyllido cyfalaf a gofynion llif arian, ac mae'n declyn rheoli allweddol ar gyfer monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae rhwymedigaethau tymor hir eraill yn cynnwys lesoedd cyllid, Menter Gyllid Preifat a rhwymedigaethau eraill nad ydynt yn fenthyca ond sy'n ffurfio rhan o ddyled yr Awdurdod.

| **Ffin Weithredol** | **31.03.18 Diwygiedig £'000** | **31.03.19 Amcangyfrif £'000** | **31.03.20 Amcangyfrif £'000** | **31.03.21 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 180,000 | 180,000 | 190,000 | 190,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **180,000** | **180,000** | **190,000** | **190,000** |

## 6. Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol

Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all yr Awdurdod fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| **Y Terfyn Awdurdodedig** | **2017/18 Diwygiedig £'000** | **2018/19 Amcangyfrif £'000** | **2019/20 Amcangyfrif £'000** | **2019/2021 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 190,000 | 190,000 | 200,000 | 200,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **190,000** | **190,000** | **200,000** | **200,000** |

## 7. Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net

Dangosydd o fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido net o'r incwm buddsoddi.

| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net** | **2017/18 Diwygiedig %** | **2018/19 Amcangyfrif %** | **2019/20 Amcangyfrif %** | **2020/21 Amcangyfrif %** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | **5.84** | **5.67** | **5.62** | **5.35** |

## 8. Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch â Buddsoddiadau Cyfalaf

Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Yr effaith gynyddol (*incremental impact*) yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm gofyn cyllideb refeniw'r rhaglen gyfalaf cymeradwy presennol a'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| **Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf** | **2018/19 Amcangyfrif £** | **2019/20 Amcangyfrif £** | **2020/21 Amcangyfrif £** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol – cynnydd mewn Treth Gyngor band D blynyddol | **0** | **0** | **0** |

## 9. Mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA

Fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer (Rhifyn 11): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2011.